DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Practis Deintyddol Broadlands

Dyddiad yr Arolygiad: 20 Hydref 2016

Dyddiad cyhoeddi: 23 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8413-9


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .................................................... 2

2. Cyd-destun .................................................... 3

3. Crynodeb .................................................... 4

4. Canfyddiadau .................................................... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .................................................... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .................................................... 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................................................... 14

5. Y Camau Nesaf .................................................... 16

6. Methodoleg .................................................... 17

   Atodiad A .................................................... 19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Broadlands yn Uned 1, Ffordd Tirion, Broadlands, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5EJ ar 20 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Broadlands yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Broadlands yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Broadlands yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys wyth deintydd, un hylenydd, a thîm mawr (amser llawn a/neu ran amser) o nyrsys deintyddol, derbynyddion ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn diwallu'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom fod aelodau o'r tîm deintyddol yn defnyddio dull cyfeillgar a phroffesiynol tuag at gleifion. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbynnir ym Mhractis Deintyddol Broadlands.

Gwnaethom archwilio cofnodion cynnal a chadw cyfarpar ac ystyried cyflwyniad y ddeintyddfa. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn rhoi pwyslais sylweddol ar iechyd a diogelwch cleifion a staff.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Deunydd hyrwyddo iechyd y cleifion a gwybodaeth am gwyno
- Adolygu polisïau, gweithdrefnau asesiadau risg a diweddariadau hyfforddi
- Prosesau cadw cofnodion
- Trefniadau sicrhau ansawdd cadarnach.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell bod y practis yn arddangos mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd er mwyn cefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dylai manylion ynglŷn â gwneud cwynion fod ar gael yn hawdd.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 12 holiadur. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi derbyn croeso a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "*Fodlon iawn, iawn ar y gwasanaeth rwy wedi'i dderbyn*"

> "*Practis gwych, a barnu yn ôl yr amser maith ry'n ni wedi bod yma. Baswn yn argymell yn gryf*"

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol, gyda chleifion yn datgan eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd ystod o wybodaeth am y practis yn cael ei harddangos ac roedd taflenni ar gael ar gyfer cleifion. Gwelsom fod rhestr brisiau o'r triniaethau ar gael fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau ar adegau pan oedd cleifion yn yr ystafell i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Gwnaeth y practis bob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion mewn holiaduron AGIC nad oeddent wedi profi unrhyw oedi afraid wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd. Roedd y rhif ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei arddangos ar y wefan ac yn y ffenestr er mwyn i gleifion allu cael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion a thaflenni hyrwyddo iechyd ar gael yn yr ardal aros ac roedd geiriau i gall ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y gallai'r practis ystyried darparu rhagor o wybodaeth/posteri hyrwyddo iechyd sy'n berthnasol i'w gleifion, megis ymwybyddiaeth canser y geg, rhoi'r gorau i ysmygu, a gwybodaeth gyffredinol am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn gymorth i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofal unigol

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron i gleifion yn cael eu dosbarthu ac roedd y canlyniadau'n cael eu pasio i reolwr y practis a'u hadolygu. Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Gwelsom fod y weithdrefn ar y cyfan yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[1] Fodd bynnag, roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac AGIC, ar goll. Roedd yn rhaid i'r weithdrefn hefyd esbonio lle'r oedd gwahaniaethau, yn dibynnu a oedd y cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.

---

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion penodedig a gwnaethom argymell y dylai ymgymryd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus mewn ymdrin â chŵynion i gefnogi'r swyddogaeth hon. Roedd gwefan y practis yn dangos bod y gweithdrefnau cwyno ar gael ar gais wrth ddesg y dderbynfa. Gwnaethom argymell y dylid sicrhau bod manylion cwyno ar gael ar y wefan ac y dylid yn ogystal sicrhau eu bod yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr ardal aros ac yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Sicrhau bod manylion cwyno ar gael ar y wefan a'u bod yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd aros ac yn cynnwys yr holl fanylion cyswllt perthnasol.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.**

**Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru rhai o'r asesiadau risg.**

**Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl, ac roedd angen i staff ddiweddaru eu hyfforddiant. Canfuom safon dda iawn o gadw cofnodion ar y cyfan, ond mae angen i rai meysydd gael eu cynnal yn gyson.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda i bob golwg ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion tân yn amlwg. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Fodd bynnag, mae angen i'r practis sicrhau bod holl eitemau sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu rhoi i gadw'n ddiogel.

Roedd polisi iechyd a diogelwch, a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol priodol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen adolygu nifer o asesiadau risg.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg mewn perthynas â chadw eitemau sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn ddiogel, prif ardal y grisiau, cadw eitemau yn y twll grisiau, a threfniadau cadw rhai offer deintyddol yn ddiogel.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol
- Roedd offer yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y polisi dadheintio'n cael ei lofnodi a'i ddyddio gan staff i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisi hwn. Mae angen i'r practis hefyd sicrhau bod archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gwblhau, yn unol

â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2] (WHTM 01-05), a bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd.***

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd cyffuriau brys wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Gwnaethom nodi bod diffyg nodwyddau untro ar gael, a derbyniodd rheolwr y practis y dylid sicrhau bod naill ai EpiPen neu fwy o nodwyddau untro ar gael mewn achos o adwaith alergaidd.

Gwnaethom argymell y dylid cadw cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith a gwnaethom argymell y dylai'r practis dynnu'r taflenni damweiniau a gwblhawyd a'u ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi penodi nifer o swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Gwnaethom argymell y dylai'r blwch cymorth cyntaf gynnwys golchwr llygaid.

Rydym yn argymell bod y practis yn adolygu ac yn diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

***Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.***

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant mewn perygl, gyda pholisi amddiffyn plant ar waith a hyfforddiant diweddaru wedi'i drefnu ar gyfer y staff. Fodd bynnag, roedd angen polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac roedd angen i'r staff ymgymryd â hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant.***

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu gwiriadau clirio bob tair blynedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pum deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, a thri aelod o staff y dderbynfa.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu diweddaru ar gyfer pum deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, a thri aelod o staff y dderbynfa.***

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Fodd bynnag, mae angen cynnwys manylion y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd ar y rheolau lleol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff sydd ynghlwm wrth dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, roedd angen i rai o'r staff gyflawni hyfforddiant diweddaru yn y maes hwn.

Canfuom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, gwnaethom sôn y gellid gwella effeithiolrwydd yr archwiliadau hyn pe bai mwy o gofnodion manwl gan gynnwys canlyniadau a chasgliadau'r archwiliadau a chamau gwella.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnwys manylion y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn y rheolau lleol.***

***Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

## Gofal effeithiol

Gwnaethom edrych ar sampl o 20 cofnod deintyddol gan yr wyth deintydd, a gwnaethom siarad â'r deintydd arweiniol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod gofal cleifion o ansawdd da iawn ac roedd nifer o'r deintyddion yn cadw cofnodion da iawn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhywfaint o fylchau o ran cysondeb cadw cofnodion ledled y practis ac felly gwnaethom nodi'r canlynol yn feysydd i'w gwella:

- Mae angen cofnodi cydsyniad gwybodus parhaus cleifion
- Mae angen sicrhau bod cynlluniau triniaeth yn cael eu llofnodi gan y claf
- Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng cofnodion o archwiliadau ceg allanol ac archwiliadau ceg mewnol a'u cofnodi'n gyson
- Dylid cofnodi hanes cymdeithasol cleifion yn gyson, gan gynnwys ysmygu, yfed alcohol, a hylendid y geg

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

- Mae angen cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg
- Mae angen cofnodi cyfnodau rhwng galw cleifion yn ôl
- Mae angen tynnu radiograffau cyn tynnu dannedd neu roi eglurhad pan nad yw hyn yn ofynnol
- Mae angen cofnodi'r rheswm dros dynnu radiograffau a nodi'r canfyddiadau ar bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cynnal nodiadau'r cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canfyddiadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae gan Bractis Deintyddol Broadlands dîm mawr sydd wedi hen sefydlu, ac mae trosiant y staff yn isel. Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y deintydd arweiniol a rheolwr practis rhan amser. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.**

**Canfuom fod angen gwneud gwelliannau i rai polisïau, gweithdrefnau a phrosesau archwilio. Roedd angen gwella arferion cadw cofnodion a threfniadau hyfforddiant diweddaru hefyd. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith i fynd i'r afael â hyn.**

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swyddogaethau a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a/neu ddiweddaru rhywfaint o'r hyfforddiant fel y nodwyd uchod.

Nid oedd y staff clinigol yn ymgymryd ag adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid, ond dywedwyd wrthym fod trafodaethau *ad hoc* ynglŷn ag unrhyw broblemau clinigol yn cael eu cynnal. Canfuom y gellid datblygu ymgysylltiad y practis ag archwiliadau clinigol ymhellach er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer adolygu'r staff clinigol gan gymheiriaid a chynnal archwiliadau rheolaidd yn y practis fel modd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygu'r staff clinigol gan gymheiriaid a chynnal archwiliadau rheolaidd.***

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymell, fodd bynnag, y dylid ceisio cadarnhad i ddangos bod gan y staff lefel ddigonol o ddiogelwch, ac, os nad oes, dylai'r practis gymryd camau priodol i fynd i'r afael â hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod lefelau imiwnedd yr holl staff mewn perthynas â Hepatitis B yn ddigonol a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn yn ôl yr angen.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd un deintydd newydd ddechrau ymarfer yn y

practis yn ddiweddar ac roedd wrthi'n cofrestru ag AGIC. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau metel cloadwy a bod y trefniadau hyn yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu data.

Roedd gan y practis dîm staff mawr a llawer ohonynt yn gweithio rhan amser. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff wrthi'n cael eu cynnal a'u diweddaru ar gyfer y staff. Mae arfarniadau blynyddol staff yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, ac er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Dywedwyd bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal bob tri mis. Er bod y staff a'r deintyddion yn cyfathrebu ar sail anffurfiol yn rheolaidd, cytunwyd bod angen i gyfarfodydd tîm ffurfiol gael eu blaenoriaethu a digwydd yn amlach. Byddai cyfarfodydd staff ffurfiol yn rhoi cyfle i drafod materion y practis mewn modd mwy ffurfiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Sicrhau bod holl arfarniadau blynyddol y staff yn cael eu diweddaru.***

O ystyried nifer y gwelliannau y mae eu hangen ar bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau hunanarchwilio, rydym yn argymell y dylai'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ar waith er mwyn bodloni'r agweddau hyn a'u cynnal mewn modd amserol yn y dyfodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith er mwyn creu, adolygu a diweddaru'r holl bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau hunanarchwilio'n rheolaidd.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Broadlands yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

# 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd.  Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Broadlands

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Hydref 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Sicrhau bod gwybodaeth am gwyno ar gael ar y wefan ac yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros, ac yn cynnwys yr holl fanylion cyswllt perthnasol. | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 15 (4) (a)<br>Safon 5.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg mewn perthynas â chadw eitemau sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn ddiogel, prif ardal y grisiau, cadw eitemau yn y twll grisiau, a threfniadau cadw rhai offer deintyddol yn ddiogel. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (2)<br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999* | | | |
| 9 | Mae'n rhaid cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Safonau Iechyd a Gofal 3.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b) | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Mae'n rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd. | Safon Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Safon 7 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus o ran canllawiau i weithwyr proffesiynol deintyddol* | | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadebru i gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. | Safon Iechyd a Gofal 5.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6. a 6.6.6* | | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu polisi ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol 4.3.3. a Datblygiad Proffesiynol* | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Parhaus o ran canllawiau i weithwyr proffesiynol deintyddol* | | | |
| 11 | Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu diweddaru ar gyfer pum deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, a thri aelod o staff y dderbynfa. | Safon Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 13 (2) | | | |
| 11 | Mae angen cynnwys manylion y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd ar y rheolau lleol. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Ymbelydredd* | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Ïoneiddio 1999 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | | | |
| 11 | Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Mae'n rhaid cynnal nodiadau'r cleifion yn unol â chanllawiau cadw cofnodion proffesiynol a dylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canfyddiadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad. | Safon Iechyd a Gofal 3.3, 3.5 a 4.5<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4* | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygu'r staff clinigol gan gymheiriaid a chynnal archwiliadau rheolaidd. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Diwygio Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 16 (a) (1) | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth* | | | |
| 13 | Dylai'r practis sicrhau bod lefelau imiwnedd yr holl staff mewn perthynas â Hepatitis B yn ddigonol a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn yn ôl yr angen. | Safon Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2* | | | |
| 14 | Dylid sicrhau bod holl arfarniadau blynyddol y staff yn cael eu diweddaru. | Safon Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (1) (b)<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1*<br>*Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth* | | | |
| 14 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith er mwyn creu, adolygu a diweddaru'r holl bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau hunanarchwilio'n rheolaidd. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Diwygio Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 16 (a) (1) | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..................................................................................................

**Teitl:** ..................................................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................................................